

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru,  
2010-2011

Tachwedd 2009



## **Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant: Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2010-2011**

### **Y Cefndir**

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 27.3, ystyriodd y Pwyllgor gyllideb ddrafft 2010-11 yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2009, gan graffu ar:

- Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai
- Dr. Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
- Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth

2. Darparodd y Gweinidogion dystiolaeth ysgrifenedig hefyd, sydd i'w gweld ar wefan y Pwyllgor ar: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-ccc-home/bus-committees-third-ccc-agendas.htm>

3. Ceir adroddiad byr ar drafodaethau ac argymhellion y Pwyllgor isod.

### **Materion a godwyd gyda'r Dirprwy Weinidog dros Dai**

4. Croesawai'r Dirprwy Weinidog y cyfle i gyflwyno'i chyllideb i'r Aelodau, ac eglurodd ar unwaith mai gwall argraffu oedd gostyngiad ymddangosiadol o £91 miliwn yn y gyllideb i fynd i'r afael â digartrefedd yn 2010-11. Eglurodd y Gweinidog, "of that apparent loss of £91 million, only £13 million is an actual reduction in the three-year budget."<sup>1</sup>

5. Wrth graffu ar y Gweinidog, ceisiodd y Pwyllgor eglurhad a manylion pellach ynglŷn â'r materion canlynol:

- a) Beth fyddai'r goblygiadau i Faes y Rhaglen Wariant Tai pe bai'r cyfrifoldeb am reoliadau adeiladu'n cael ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru.
- b) Sut y byddai'r gostyngiad yn y gyllideb i gefnogi trosglwyddo stoc a Chwmnïau Tai Cymunedol Cydfuddiannol yn effeithio ar y trosglwyddiadau stoc a ddisgwylir yn ystod 2010.
- c) Beth yw goblygiadau cyllidebol tebygol Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth Cymru ynghylch tai, a sut mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb ddrafft.
- d) Sut roedd Adolygiad Essex wedi dylanwadu ar y Gyllideb Tai eleni.

---

<sup>1</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 14 Hydref.

- e) Pa gymorth yr oedd y gyllideb ddrafft yn ei ddarparu tuag at ddatblygu bond tai Cymru.
- f) Sut roedd y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Dai Genedlaethol wedi dylanwadu ar y penderfyniadau gwariant yn y gyllideb ddrafft.
- g) Sut y byddai'r cynnydd bach yn y cyllid Cefnogi Pobl yn galluogi'r Strategaeth Cefnogi Pobl newydd i gyflawni ei hamcanion.
- h) Pa un a wnaeth y Dirprwy Weinidog unrhyw geisiadau pellach am gyllid o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol.
- i) Sut y byddai'r gyllideb tai yn ateb anghenion y Cynllun Digartrefedd deng mlynedd newydd.
- j) Pam nad oedd darpariaeth benodol wedi cael ei gwneud ar gyfer y Cynllun Achub Morgeisi yn y gyllideb ddrafft.
- k) Sut y disgwylir i arian a ddyrannwyd ar gyfer Cartrefi Nyrsio Di-elw gael ei wario yn 2010-11.
- l) Pan un a oedd digon o Grant Tai Cymdeithasol ar gael yn y gyllideb i gyflawni'r ymrwymiad ynglŷn â thai fforddiadwy yn *Cymru'n Un*.
- m) Pa effaith a gâi'r gostyngiad bach yn y llinell wariant 'cyllideb tai i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig' ar allu Gweinidogion Cymru i gyflawni'u dyletswydd statudol i hyrwyddo cydraddoldeb o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* a deddfwriaeth arall.
- n) Ymhle roedd ymrwymadau i gynaliadwyedd yn cael eu hadlewyrchu ym Maes y Rhaglen Wariant Tai.

### **Gwybodaeth bellach i gael ei darparu gan y Dirprwy Weinidog dros Dai**

6. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn gwybodaeth cyffredinol i'r Pwyllgor ar Fond Tai Cymru.

## **Materion a oedd yn destun pryder arbennig i'r Aelodau, yn deillio o'u craffu ar y Dirprwy Weinidog dros Dai:**

### **▪ Datblygu'r Bond Tai**

7. Croesawai'r Aelodau y cynnydd yng ngwaith Llywodraeth Cymru yn datblygu'r Bond Tai, gan nodi "this could be used towards stock transfer, but also to supplement social housing grants in leveraging in private sector finance to the housing associations."<sup>2</sup> Ceisiodd yr Aelodau eglurhad hefyd ar sylwadau'r Gweinidog, "Housing associations have expressed the concern that, when refinancing, it is becoming more expensive,"<sup>3</sup>. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu eglurhad ysgrifenedig.

8. Nododd y Gweinidog hefyd y byddai'r Bond Tai yn "pretty safe, low-interest income stream because there is never enough social housing to meet the demand for it; there will always be people waiting for it to become available, so you never have enough social housing. You are therefore guaranteed an income stream from it; it seems to be low risk, for example, like investing in a pension fund over a long time."<sup>4</sup>

### **▪ Cefnogi Pobl**

9. Cefnogi Pobl yw fframwaith polisi a chyllido Llywodraeth y Cynulliad er darparu cymorth yn gysylltiedig â thai i bobl sy'n agored i niwed.

10. Pan holwyd y Gweinidog a oedd egwyddorion 'Cefnogi Pobl' yn flaenoriaeth strategol i wahanol awdurdodau lleol, cydnabu am rai awdurdodau lleol eu bod yn "found to be wanting"<sup>5</sup> ond dywedodd "I have asked for those who are involved in this—the commissioners and the providers—to come together to talk, to see if there is a way forward."<sup>6</sup>

11. Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'n dda o beth cael llinell amser i'r broses hon.

12. Mynegodd yr Aelodau bryder hefyd ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng maint ceisiadau gwahanol awdurdodau lleol am y Grant Cefnogi Pobl. Dywedodd Joyce Watson AC, "I think that it ranges from the lowest at £16 per person to the highest at £113 per person."<sup>7</sup>

---

<sup>2</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 14 Hydref.

<sup>3</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 14 Hydref.

<sup>4</sup> Ibid.

<sup>5</sup> Ibid.

<sup>6</sup> Ibid.

<sup>7</sup> Ibid.

13. Fodd bynnag, eglurodd y Gweinidog “even though that money comes through the Assembly’s budget, it is actually linked historically to how it was pursued from the UK Government pot prior to 2003... There are talks about redistribution, but you would then be taking money away from those local authorities that vigorously pursued that pot prior to 2003 to give more money to others. This is not related to the needs in those areas, of course; just how the pot was pursued originally. So, it is slightly different. We have two different but interrelated difficulties with regard to Supporting People.”<sup>8</sup>

▪ **Y Cynllun Digartrefedd deng mlynedd newydd**

14. Croesawai’r Aelodau y pwyslais yr oedd y Llywodraeth yn ei roi ar ymyrryd cynnar, cyfryngu ac atal digartrefedd yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar ddelio â digartrefedd pan fydd yn digwydd. Roedd yr Aelodau hefyd yn croesawu sylwadau’r Gweinidog, “The work that has been done in previous years on having homelessness officers has reduced bed-and-breakfast bills enormously.”<sup>9</sup>

▪ **Y llinell wariant cyllideb tai i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig**

15. A chadw mewn cof gostau cynyddol chwyddiant, mynegodd yr Aelodau rywfaint o bryder am y gostyngiad o £6000 yn y llinell wariant ‘Cyllideb tai i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig’ yn y gyllideb. Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Weinidog yr hoffai “give the committee assurances that this will not impact significantly on that work.”<sup>10</sup>

**Materion a godwyd gyda’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**

16. Croesawai’r Weinidog y cyfle i gyflwyno’i gyllideb i’r Aelodau.

17. Wrth graffu ar y Gweinidog, ceisiodd y Pwyllgor eglurhad a manylion pellach ynglŷn â’r materion canlynol:

- a) Pa ffactorau a oedd wedi dylanwadu ar benderfyniad y Gweinidog i ddyrannu cyllid ychwanegol i rai meysydd gwaith ac i leihau’r cyllid i eraill.
- b) Y rhesymau wrth wraidd yr arbedion effeithlonrwydd wedi’u cynllunio yn y Meysydd Rhaglenni Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol.
- c) Pa un a oedd Ymarfer Gwerthuso’r Adolygiad o Wariant wedi effeithio ar y gyllideb cyfiawnder cymdeithasol.

---

<sup>8</sup> Ibid.

<sup>9</sup> Ibid.

<sup>10</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 14 Hydref.

- d) Pa gamau ymarferol a gymerwyd i sicrhau nad yw toriadau'n effeithio'n ormodol ac yn annheg ar grwpiau neilltuol o bobl.
- e) A oedd unrhyw geisiadau am gyllid wedi cael eu gwneud o dan y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol, ac, os felly, beth yw'r cynlluniau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer yr arian hwnnw
- f) A fyddai'r gostyngiadau yn nyraniadau 2010-11 yn golygu na fyddai ymrwymïadau yn 'Cymru'n Un' yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol yn cael eu gwireddu.
- g) Beth fyddai effaith y gostyngiad mewn cyllid ar gynllun Cymunedau yn Gyntaf.
- h) Beth fyddai effaith y gostyngiad mewn cyllid ar y sector gwirfoddol yng Nghymru.
- i) Pa effaith y byddai'r diffyg cynnydd – mewn termau real – yn y dyraniad i Faes y Rhaglen Wariant Tlodi Plant yn ei chael ar uchelgais Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ymhlith plant yng Nghymru.
- j) Sut y byddai'r cynnydd o £5.9 miliwn yn y cyllid a ddyrannwyd i'r Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau yn cael ei ddefnyddio i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- k) Pam roedd blaenoriaeth yn cael ei rhoi yn ôl pob golwg i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod uwchlaw materion eraill o fewn agenda trais yn y cartref.
- l) Beth fyddai effaith ddisgwyliedig y gostyngiadau yng Ngweithredu'r Gwasanaeth Tân ac Achub.
- m) Sut roedd y Gweinidog yn bwriadu rheoli effaith y llinellau cyllideb digyfnewid ar gyfer y Gronfa Cynyddu Cydraddoldebau (y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldebau gynt) a'r Grant Adnewyddu a Safleoedd Newydd i Sipsiwn-Teithwyr.
- n) Pam mae cylch gwaith y Grant Cynhwysiant wedi cael ei ehangu i gynnwys Pobl Fudol, Sipsiwn a Theithwyr yn ogystal â ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a hynny ar adeg y byddai'r cyllid yn cael ei dorri 23% i £1 miliwn yn 2010-11.

## **Materion a oedd yn destun pryder arbennig i'r Aelodau, yn deillio o'u craffu ar y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol:**

- **Tryloywder y gwariant a gynlluniwyd**

18. Yn sgil ailstrwythuro'r gyllideb a'r newid o "Linellau Gwariant y Gyllideb" i "Weithredu", roedd yr Aelodau'n pryderu a oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn glir sut y byddai'r gostyngiad yn y gyllideb a oedd ar gael i'r Gweinidog drwyddi draw yn effeithio ar gynlluniau unigol.

19. Er enghraifft, dywedodd y Gweinidog ar ddechrau'r trafodaethau ar y gyllideb fod rhaid i bob Gweinidog "accept the 1.6 per cent efficiency saving."<sup>11</sup> Fodd bynnag, o graffu ar arbedion effeithlonrwydd ar linellau cyllido penodol, nododd Alun Cairns AC, "efficiency' is a bit of a generous word; you have just cut the advertising budget. We are not getting the same outcome for less money."<sup>12</sup> Cydnabu'r Gweinidog fod arbedion effeithlonrwydd weithiau'n golygu toriadau wedi'u rheoli yn y cyllid, gan ddweud, mewn perthynas ag ymgyrch 'Give a Little, Gain a Lot' ar y cyfryngau, "we are cutting training, but we did so in the knowledge that the Wales Council for Voluntary Action and community voluntary councils are providing training, so we are not going from a situation in which there is no training provision."<sup>13</sup>

- **Y Gwasanaethau Tân**

20. Er gwaethaf gostyngiad sylweddol ym mheth o'r cyllid ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth tân, dywedodd yr Aelodau fod y Gweinidog wedi tawelu eu meddyliau gyda'i esboniad mai'r rheswm am hyn yw'r cynnydd araf sy'n cael ei wneud parthed system gyfathrebu radio digidol Fire Link, ac nad oedd disgwyl i'r gostyngiad effeithio ar wasanaethau rheng flaen. Dywedodd y Gweinidog, o ran "front-line fire services—fire brigades and so on—there is no change."<sup>14</sup>

## **Materion a godwyd gyda'r Gweinidog dros Dreftadaeth**

21. Croesawai'r Gweinidog y cyfle i gyflwyno'i gyllideb ddrafft i'r Aelodau.

22. Wrth graffu ar y Gweinidog, ceisiodd y Pwyllgor eglurhad a manylion pellach ynglŷn â'r materion canlynol:

- a) Y prif resymau am y gwahaniaethau cymharol yn y newidiadau cyllido rhwng y Meysydd Rhaglenni Gwariant.

---

<sup>11</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 14 Hydref.

<sup>12</sup> Ibid.

<sup>13</sup> Ibid.

<sup>14</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 14 Hydref.

- b) Manylion penodol yr hyn y bwriadir ei wneud â buddsoddiad o £670,000 tuag at gostau ailstrwythuro yn y 'Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad'.
- c) Enghreifftiau o'r mathau o brosiectau y disgwylir iddynt gael eu rhoi ar waith yn sgil targedu £640,000 at foderneiddio trefniadau gweithio yn y sector treftadaeth ac at hyrwyddo rhagor o weithio drwy bartneriaeth.
- d) Esboniad o'r anghysondeb rhwng dogfen ategol y Gweinidog at y gyllideb ddrafft - a ddywedai fod y gyllideb refeniw drwyddi draw yn cynnwys dyraniadau ychwanegol o £3 miliwn - a'r dadansoddiad o'r dyraniadau a gynlluniwyd, sydd hefyd wedi cael ei ddarparu gan y Gweinidog, sy'n dod i gyfanswm o £2.225 miliwn.
- e) Esboniad o ble mae'r arbedion effeithlonrwydd ac arbedion eraill yn y Terfyn Gwariant Adrannol - Treftadaeth wedi cael eu nodi, a sut y caent eu cyflawni.
- f) Pa gynlluniau gwariant cyfalaf, os oedd rhai, a oedd wedi cael eu gosod o'r neilltu neu'u gohirio oherwydd y newidiadau a wnaed i flaenoriaethau gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru.
- g) Cynigion y gorffennol a'r dyfodol mewn perthynas â'r Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol.
- h) O ystyried y cyfyngiadau ariannol, pa un a oedd y Gweinidog yn hyderus y câi'r holl ymrwymadau yn *Cymru'n Un* eu gwireddu.
- i) Pa feysydd rhaglen penodol fyddai'n cael eu defnyddio i gyrraedd y nod sydd wedi'i ddatgan gan y Gweinidog o sicrhau bod y Prif Grŵp Gwariant Treftadaeth yn cyfrannu cymaint â phosibl tuag at wrthweithio effaith y dirwasgiad economaidd.
- j) Enghreifftiau o brosiectau tymor byr y câi cyllid ei dargedu atynt.
- k) Sut y câi strategaeth effeithlonrwydd ei chymhwyso i'r portffolio Treftadaeth.
- l) Y Cynllun Cyfrifon Cwsg.
- m) Beth y byddai Llywodraeth Cymru'n ei wneud i liniaru effaith y gostyngiad o £70 miliwn mewn cyllid Loteri i Gymru.
- n) Pa bryderon a oedd gan y Gweinidog ynglŷn â'r effaith y gallai gostyngiadau cyllido tymor byr ei chael ar amcanion tymor hwy.



- o) Pa asesiad oedd wedi cael ei wneud o effaith y dirywiad economaidd ar ffrydiau cyllido a hefyd pa effaith a gâi yn y dyfodol ar anghenion cyllido cyrff a digwyddiadau sydd eisoes yn ddibynnol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru.
- p) Pa un a oedd y Gweinidog o'r farn fod y ffordd newydd o gyflwyno cyllideb y 'gronfa ddiwylliant' yn welliant ar y flwyddyn flaenorol, ac a oedd yn darparu digon o fanylion i alluogi craffu effeithiol.
- q) A oedd argaeledd cyfleusterau adloniant wedi cael ei ailasesu mewn cyddestun ehangach, ers i'r Prif Swyddog Meddygol gymryd yr awenau o ran gweithgarwch corfforol.
- r) A oedd y gyllideb wedi ystyried unrhyw ofynion ariannol posibl a fyddai'n deillio o Fesurau sy'n cael eu cynllunio yng nghyswllt y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch y Gymraeg.
- s) Pa un a oedd darlun clir wedi dod i'r amlwg o effaith mynediad am ddim i blant a phensiynwyr i safleoedd CADW ar gyllideb CADW.
- t) Sut yr oeddid yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gael cyllid UE, ac a oedd newidiadau yn y meini prawf cyllido yn effeithio ar allu Cymru i fanteisio ar arian o'r fath.

## **Gwybodaeth bellach i gael ei darparu gan y Gweinidog dros Dreftadaeth**

23. Cytunodd y Gweinidog i rannu dosbarthiad a dadansoddiad manwl o'r dyraniadau cyllidebol o fewn y Gronfa Ddiwylliant yn y flwyddyn ariannol nesaf gyda'r Pwyllgor.

### **Materion a oedd yn destun pryder arbennig i'r Aelodau, yn deillio o'u craffu ar y Gweinidog dros Dreftadaeth:**

- **Cynllun cyfrifon cwsg i Gymru**

24. Croesawai'r Aelodau sylw'r Gweinidog y byddai papur ar y cynllun cyfrifon cwsg arfaethedig i Gymru yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 19 Hydref. Fodd bynnag, nododd yr Aelodau, tra oedd yr "original estimate of how much money we would get was around £15 million"<sup>15</sup> fod hyn wedi gostwng i £8-10 miliwn bellach. Cydnabu'r Gweinidog y gostyngiad hwn yn yr amcangyfrifion.

<sup>15</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 14 Hydref.

- **Tryloywder y gwariant a gynlluniwyd**

25. Yn sgil ailstrwythuro'r gyllideb a'r newid o "Linellau Gwariant y Gyllideb" i "Weithredu", roedd yr Aelodau'n pryderu a oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn glir sut y byddai'r gostyngiad yn y gyllideb a oedd ar gael i'r Gweinidog drwyddi draw yn effeithio ar gynlluniau unigol.

26. Nododd yr Aelodau, o'r £670 000 o gyllid refeniw ychwanegol a oedd ar gael tuag at gostau ailstrwythuro yn y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, ei bod yn anodd penderfynu a fyddai'r arian hwn o reidrydd yn cyfrannu at fwy o effeithlonrwydd neu well gwasanaethau rheng flaen yn y dyfodol. Dywedodd y Gweinidog fod yr arian ychwanegol hwn "HAS been targeted specifically to allow them (AGSBs) to prepare plans for the future."<sup>16</sup>

27. Nododd yr Aelodau hefyd, er bod dros £2 filiwn o arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu nodi, mai prin oedd y manylion ynglŷn â ffurf y rhain. Cydnabu'r Gweinidog bod disgwyl i Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad ganfod rhai arbedion effeithlonrwydd ac "we expect to see detailed plans of how they will deal with the money that is allocated to them, including efficiency savings."<sup>17</sup>

28. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n croesawu ymdrechion y Gweinidog i gynnig dadansoddiad o'r gronfa ddiwylliant yn y flwyddyn ariannol gyfredol, yn dilyn sylwadau yn y craffu ar gyllideb y flwyddyn flaenorol fod y gronfa ddiwylliant yn cynrychioli swm sylweddol o arian a oedd fel petai'n cwmpasu popeth, heb fawr o gyfle i graffu ar y gwariant a gynlluniwyd. Serch hynny, roedd yr Aelodau'n poeni bod angen iddynt, yn ogystal â gallu craffu ar wariant y Gronfa Ddiwylliant yn y flwyddyn ariannol gyfredol, "to see where the changes in spending are for the next financial year and the proposals thereafter."<sup>18</sup> Roedd yr Aelodau felly yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i rannu gyda'r Pwyllgor ddosbarthiad a dadansoddiad manwl o'r dyraniadau cyllidebol o fewn y Gronfa Ddiwylliant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

## **Argymhellion**

Mae'r Aelodau'n argymhell:

1. Bod Llywodraeth Cymru'n darparu nodyn yn manylu ar amserlenni i'r broses o hyrwyddo egwyddorion 'Cefnogi Pobl' fel blaenoriaeth strategol i awdurdodau lleol gwahanol.

2. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o'r dyraniadau cyllidebol a

---

<sup>16</sup> Ibid.

<sup>17</sup> Ibid.

<sup>18</sup> Ibid.

ragwelir o fewn y Gronfa Ddiwylliant am flwyddyn ariannol 2011-2012, wrth iddi gyflwyno'i chyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf.